Rheoli Cloffni mewn Defaid

Mae gwneud y diagnosis cywir yn bwysig – dim ond bryd hynny y gallwch ddewis y driniaeth a'r mesuriadau cywir i geisio atal problemau cloffni yn y dyfodol.

Nodweddion gwahaniaethol y tri phrif fath gwahanol o gloffni traed:

- Llid y traed – mae'r croen yn yr hollt rhwng yr ewinedd yn llidus, yn llaith ac wedi chwyddo, ond mae'r corn yn dal yn gyfan.
- Clwy'r traed - mae hwn yn dechrau fel llid y traed rhwng yr ewinedd, ac yn ymledu i ymrannu'r corn ger y sawdl, gan ymledu wedyn ar hyd y gwadn a hyd yn oed i fyny'r bilen mewn achosion difrifol. Mae yna ddrewdod nodweddiadol yn perthyn i glwy'r traed, wrth i weddillion cawslyd tywyll gasglu o dan y corn rhydd.
- Dermatitis carnol heintus mewn defaid (CODD) - yn wahanol i glwy'r traed, sy'n dechrau yn y gwadn ac yn ymledu tuag allan ac i fyny, mae'n dechrau â darn dolurus ym mywyn y carn ac yn ymledu i lawr yr ewin, gan fynd yn gyflym o dan y corn. Mewn achosion difrifol mae holl gwpan y corn yn dod yn rhydd ac yn datguddio ewinedd noeth. Gall hyn arwain at ddifrod parhaol i'r droed.
- Mae mathau eraill o gloffni yn cynnwys carnau cregynnog, crawniadau llinell wen (blaen y carn), crawniadau cymalau asgwrn y carn a granwloma.

CODD – *Llun gan Jospeh Angell*

Mesuriadau i leihau cloffni yn y praidd:

Dilynwch y cynllun 5-pwynt:



Rheoli Cloffni mewn Defaid

Adeiladu hydwythedd – DIFA

- Difa'r rhai sy'n gloff o hyd - fel y mamogiaid sydd wedi bod yn gloff ddwywaith mewn un tymor
- Difa mamogiaid sydd â thraed cronig angheuol – yn enwedig os ydych yn cadw mamogiaid amnewid
- Mae tynnu defaid cloff o'r praidd yn bwysig oherwydd gallant fod yn ffynhonnell i'r broblem a thrwy hynny ymledu cloffni'n gyflym drwy'r praidd

Lleihau her afiechyd – TRIN

- Trin y mamogiaid yn syth ar ôl sylwi ar gloffni
- Tagio neu farcio unrhyw ddefaid cloff er mwyn cadw llygad arnyn nhw am 3 diwrnod ar ôl y driniaeth gyntaf i weld a ydyw wedi bod yn effeithiol ac i roi triniaeth ychwanegol os oes angen
- Ceisiwch osgoi tocio'r traed heintiedig
- Mynnwch air â'ch milfeddyg am ddiagnosis cloffni a'r driniaeth a'r meddyginiaethau orau am yr achosion a'r amodau yn eich praidd

Lleihau her afiechyd – CWARANTIN

- Rhowch unrhyw famogiaid/hyrddod/ŵyn benyw a brynwyd ac unrhyw ddefaid sydd wedi bod ar dac mewn cwarantin cyn gynted â phosib ar ôl iddynt gyrraedd y fferm
- Dylwch gadw pob anifail mewn cwarantin am o leiaf 4 wythnos
- Trowch, archwiliwch a thrin unrhyw stoc a brynir gydag arwyddion o gloffni neu draed cronig angheuol
- Ystyriwch ddefnyddio baddon traed ar bob anifail sy'n cyrraedd y fferm os yw'r cyfleusterau'n addas

Lleihau her afiechyd – OSGOI

- Y ffordd fwyaf effeithiol o leihau cloffni yw osgoi ymledu'r bacteria yn y lle cyntaf drwy weithredu rhai o'r gweithdrefnau canlynol:
    - Taenwch flawd llif, sglodion coed neu galch mewn ardaloedd ble mae llawer o ddefaid yn ymgynnull fel o amgylch cafnau bwyd a dŵr, ardaloedd trin a gatiau
    - Golchwch neu ddiheintio ardaloedd trin
    - Symudwch borthwyr ymgripiol a bwcedi mwynau yn aml
    - Rhowch wellt glân a diheintydd neu galch yn aml mewn siediau

Sefydlu Imiwnedd – BRECHU

- Mynnwch air â'ch milfeddyg am gynllun brechu unigryw sydd wedi'u deilwra i'ch praidd